Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

National Assembly for Wales
Finance Committee

17 Ebrill 2018

Annwyl Elin,

AMSERLEN Y BIL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS (CYMRU)

Ym mis Medi 2017, ystyriodd y Pwyllgor Busnes yr amserlen ar gyfer y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) a chytunodd ar 18 Mai 2018 fel terfyn amser dros dro ar gyfer trafodion Cyfnod 2.

Cyn i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau allu bwrw ymlaen â thrafodion Cyfnod 2, mae'n rhaid i'r Llywodraeth gyflwyno penderfyniad ariannol cyn dechrau trafodion Cyfnod 2. Mae Rheol Sefydlog 26.74(i) yn ei gwneud yn ofynnol i benderfyniad ariannol gael ei gyflwyno o fewn chwe mis i gwblhau Cyfnod 1. Derbyniodd y Cynulliad egwyddorion cyffredinol y Bil ar 21 Mawrth 2018 ac felly'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r penderfyniad ariannol yw 21 Medi 2018.

Ar sail hynny, efallai y bydd angen ymestyn y terfyn amser dros dro ar gyfer trafodion Cyfnod 2 a gytunwyd gan y Pwyllgor Busnes. Bydd angen i mi drafod ymhellach ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid er mwyn cadarnhau faint o waith ychwanegol sydd angen ei wneud er mwyn bodloni'r Llywodraeth fel ei bod yn barod i gyflwyno penderfyniad ariannol.

Byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i awgrymu amserlen newydd arfaethedig yn dilyn y trafodaethau hynny. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at John Griffiths, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, oherwydd y bydd newid yr amserlen hon yn effeithio ar waith ar y Pwyllgor hwnnw.

Yn gywir

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Simon Thomas AC

Cadeirydd

*Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.*

*We welcome correspondence in Welsh or English.*

***Atodiad***

***Amserlen ddrafft – Y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)***

| CARREG FILLTIR | DYDDIAD |
|---|---|
| 1. Cyflwyno'r Bil | Dydd Llun 2 Hydref 2017 |
| 2. Terfyn amser ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 1 y Pwyllgor[1] | Dydd Gwener 9 Mawrth 2018 |
| 3. Diwedd Cyfnod 1 – Dadl yn y Cyfarfod Llawn ar yr egwyddorion cyffredinol a chynnig ar benderfyniad ariannol (os bydd angen) | Dydd Mercher 21 Mawrth 2018 |
| 4. Dechrau Cyfnod 2[2] | Dydd Iau 22 Mawrth 2018 |
| 5. Y dyddiad cynharaf posibl ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 2 gan Bwyllgor[3] | Dydd Llun 16 Ebrill 2018 |
| 6. **Diwedd Cyfnod 2** – terfyn amser ar gyfer y Pwyllgor sy'n ymdrin â Chyfnod 2[4] | Dydd Gwener 11 Mai 2018 |
| 7. Dechrau Cyfnod 3[5] | Dydd Llun 14 Mai 2018 |
| 8. Y dyddiad cynharaf posibl ar gyfer | Dydd Mawrth 5 |

[1]Mae hyn yn caniatáu 18 wythnos eistedd ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 1 y Pwyllgor, gan ganiatáu amser ar gyfer: toriad hanner tymor yr hydref (30 Hydref 2017 – 5 Tachwedd 2017); toriad y Nadolig (18 Rhagfyr – 7 Ionawr 2018); a thoriad hanner tymor y gwanwyn (*sydd wedi'i bennu dros dro ar 19 Chwefror 2018 – 25 Chwefror 2018*).

[2] Mae Cyfnod 2 yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i Gyfnod 1 ddod i ben.

[3] Rhaid i 15 diwrnod gwaith o leiaf fynd heibio rhwng dechrau Cyfnod 2 a chyfarfod cyntaf y Pwyllgor, gan ystyried Dydd Gwener y Groglith ar 30 Mawrth 2018 a Dydd Llun y Pasg ar 2 Ebrill 2018.

[4] Neilltuwyd pedwar cyfarfod posibl i'r Pwyllgor gynnal trafodion Cyfnod 2.

[5] Mae Cyfnod 3 yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i Gyfnod 2 ddod i ben.

| | |
|---|---|
| ystyriaeth fanwl gan y Cynulliad[6] | Mehefin 2018 |
| 9. Cyfnod 3 yn y Cyfarfod Llawn | Dydd Mercher 13 Mehefin 2018 |
| 10. Cyfnod 4 yn y Cyfarfod Llawn | I'w gyhoeddi |
| 11. Cydsyniad Brenhinol | I'w gyhoeddi |

[6]Rhaid i 15 diwrnod gwaith o leiaf fynd heibio rhwng dechrau Cyfnod 3 a dyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad sy'n ystyried trafodion Cyfnod 3. Rhaid cofio am ŵyl banc y Sulgwyn ar 28 Mai 2018.